## Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Dinbych, Nos Wener Mai 11eg 2018 yn Neuadd y Dref, Dinbych am 7 o'r gloch.

**Presennol:** Cynghorwyr Roy Tickle, Catherine Jones, Gaynor Wood-Tickle, Rob Parkes, Alyn Ashworth, Colin L Hughes, Philip Stevens, Marilyn Jones, Dyfrig Berry, Rhys Thomas, Gwawr Cordiner & Gaynor Morgan Rees; Jenny Barlow (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Lara Pritchard, Glenn Swingler & Guto Lloyd-Davies.

1 **Gweddïau:** Agorwyd y cyfarfod trwy weddi gan Gaplan y Maer, y Parchedig Ganon Pauline Walker.

2. **Adroddiad Blynyddol y Maer:** Cyflwynodd y Maer, y Cyng Roy Tickle, adolygiad o'r flwyddyn ddinesig 2017 / 2018 gan gyfeirio at uchafbwyntiau'r prif ddigwyddiadau oedd wedi cymryd lle. Hefyd cyflwynodd y Maer ei 3 elusennau a ddewiswyd - Tŷ Gobaith, St Kentigern ac Achub Anifeiliaid Gogledd Clwyd gyda siec am £843.66 yr un. Cyflwynwyd cyflwyniad ychwanegol o blac y dref ynghyd â bathodyn cyngor tref i Ringyll Neil Stringfellow ar ei ymddeoliad ar fin digwydd o Heddlu Gogledd Cymru.

3. **Ethol Maer:** Cynigodd y Cyng Roy Tickle, eiliwyd gan y Cyng Marilyn Jones, a phenderfynwyd fod y Cyng Catherine Jones yn cael ei ethol yn Faer am y Flwyddyn Ddinesig 2018 / 2019.
Darllenodd ac arwyddodd y Cyng Catherine Jones y Datganiad Statudol yn Derbyn y Swydd ym mhresenoldeb y Cofiadur Anrhydeddus Barnwr Michael Baker, y Cynigydd a'r Eilydd.
Cyflwynodd y Cyng Roy Tickle Cadwyn y Swydd i'r Cyng Catherine Jones.
Cyflwynodd y Faeres ymddeol, Cadwyn Swydd Faeres i'r Faeres Mrs Nicola McIntyre..

4. **Cyflwyniad:** Cyflwynodd y Maer, Blac Dinesig a Bathodyn Cyn Maer i Gyng Roy Tickle i gofio am ei flwyddyn yn y swydd. Cyflwynodd y Maer, Fathodyn Dinesig i'r Cyng Gaynor Wood-Tickle i gofio am ei blwyddyn yn y swydd.

5. **Pleidlais o Ddiolch:** Cynigodd y Cyng Catherine Jones bleidlais o ddiolch i'r Cyng Roy Tickle am y modd yr oedd wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn ystod y flwyddyn 2017 / 2018.

6. **Adroddiad y Maer:** Diolchodd y Maer newydd i'w Chynigydd a'i Eilydd ac yna anerchodd y cyfarfod.

7. **Ethol Dirprwy Faer:** Cynigodd y Cyng Rob Parkes, eiliwyd gan y Cyng Marilyn Jones a phenderfynwyd fod y Cyng Gaynor Wood-Tickle yn cael ei hethol yn Ddirprwy Faer am y Flwyddyn Ddinesig 2018 /2019.
Darllenodd ac arwyddodd y Cyng Gaynor Wood-Tickle'r Datganiad yn Derbyn Swydd ym mhresenoldeb y Cofiadur Anrhydeddus Barnwr Michael Baker, y Cynigydd a'r Eilydd.
Cyflwynodd y Maer Cadwyn y Swydd i'r Cyng Gaynor Wood-Tickle.
Cyflwynodd y Maer Cadwyn y Dirprwy Cymar i'r Cyng Roy Tickle.

8. **Adroddiad Presenoldeb Cynghorwyr am y flwyddyn 2017 / 2018:** Cyfeiriodd y Maer at bresenoldeb blwyddyn fwrdeistrefol 2017/2018. Roedd tri chynghorydd sef y Cyng Roy Tickle, Gaynor Wood-Tickle & Colin L Hughes wedi llwyddo ar bresenoldeb 100%. Mabwysiadwyd yr adroddiad presenoldeb.

9. **Penodi Caplan y Maer:** Penododd y Maer y Tad George Areekuzhy yn Gaplan am y Flwyddyn Ddinesig 2018/2019.

10. **Gwasanaeth Dinesig:** Datganodd y Maer y byddai'r Gwasanaeth Dinesig yn Eglwys Gatholig Sant Joseff, Dinbych, Dydd Sul 17eg o Fehefin am 3 o'r gloch y prynhawn.

11. **Y Fendith:** I ddod â'r gweithgareddau i ben, traddodwyd y Fendith gan y Tad George Areekuzhy.

Caeodd y Maer y cyfarfod am 7.45pm.

Llofnod:..................................................

Dyddiad:..................................................